# Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN) (2022-2037)

# Papur Cefndir:
# Galwad am Safleoedd Ymgeisiol: Nodyn Canllaw Arolwg Ecolegol

## Mai 2023

## Crynodeb Gweithredol

*Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg*
*This document is available in English*

## 1. Cyflwyniad

1.1 Paratowyd Nodyn Canllaw Arolwg Ecolegol (Mai 2023) fel cymorth i'r rheiny sy'n cynnig safleoedd er mwyn iddynt wybod pa wybodaeth ecolegol y mae ei hangen i gefnogi Asesiad Safleoedd Ymgeisiol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN). I grynhoi, mae yna ddau ofyniad. Yn gyntaf, os yw'n wybyddus fod gan safle adnodd ecolegol, yna dylid darparu'r gwaith arolygu priodol wrth gyflwyno'r safle yn gychwynnol.

1.2 Yn ail, bydd gofyn i bob safle sy'n mynd ymlaen i Gam 2 yr Asesiad gyflwyno Adroddiad Arfarniad Ecolegol Cychwynnol yn ystod yr Ail Alwad am Safleoedd / Galwad am Wybodaeth Ategol Ychwanegol.

1.3 Darperir y Nodyn Canllaw Arolwg Ecolegol hwn ar y cyfle cynharaf er mwyn sicrhau bod cymaint o amser â phosibl ar gael yn ystod tymor yr haf 2023 i baratoi gwaith arolygu.

## 2. Trosolwg o'r Alwad am Safleoedd Ymgeisiol

2.1 Bydd y Cyngor yn cynnal Galwad am Safleoedd Ymgeisiol am wyth wythnos i gychwyn, a gwahoddir y rheiny sydd â diddordeb mewn cyflwyno tir i'w ystyried ar gyfer y CDLlN, i gyflwyno safleoedd. Mae methodoleg Asesu Safleoedd Ymgeisiol y Cyngor ar gael ar wefan y Cyngor a cheir yn y ddogfen wybodaeth fanylach sy'n dweud sut y bydd y Cyngor yn ystyried y wybodaeth a geir ar y ffurflen cyflwyno safle ymgeisiol.

2.2 Bydd gofyn ailgyflwyno safleoedd ymgeisiol a gyflwynwyd yn flaenorol (2018 neu 2020/21) a safleoedd sydd wedi eu dyrannu yn y Cynllun Datblygu Lleol yn barod ond nad oes ganddynt ganiatâd cynllunio cyfredol.

2.3 Os gwrthodwyd safle ymgeisiol yn y gorffennol, neu dyrannwyd y safle ond nid yw wedi cael ei ddatblygu, dylai unrhyw gais newydd a gyflwynir ystyried y rhesymau dros beidio

â symud y safle ymlaen a darparu unrhyw wybodaeth ychwanegol (e.e. arolygon) er mwyn esbonio sut y gellir goresgyn unrhyw gyfyngiadau a pham y dylid ailystyried dyrannu'r safle.

2.4 Bydd Ail Alwad am Safleoedd, a fydd yn rhedeg ar yr un pryd â'r ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir, yn derbyn safleoedd newydd ac yn rhoi cyfle i'r rheiny sy'n cynnig safleoedd yn barod i gyflwyno gwybodaeth ategol ychwanegol er mwyn rhoi sylw i unrhyw faterion sydd heb eu hateb. Bydd gofyn cyflwyno Adroddiad Asesiad Ecolegol Cychwynnol ar yr adeg hon. Nid oes disgwyl i'r Cyngor dderbyn unrhyw Safleoedd Ymgeisiol newydd wedi i'r Ail Alwad am Safleoedd gau.

## 3. Gwybodaeth Ecolegol Waelodlin

3.1 Dylid cyflwyno gwybodaeth ecolegol waelodlin er mwyn goleuo'r broses o Asesu Safleoedd Ymgeisiol, mewn adroddiad. Dylai ddisgrifio gwerth ecolegol y Safle Ymgeisiol arfaethedig ar y pryd, ar sail arolwg botanegol yn bennaf ond wedi ystyried rhywogaethau a warchodir neu rhywogaethau â blaenoriaeth a allai fod ar y safle. Rhaid asesu safleoedd hefyd o ran eu potensial i fod yn Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, gan ddefnyddio'r Canllawiau ar gyfer Dethol Safleoedd Bywyd Gwyllt yn Ne Cymru.

3.2 Rhaid i bob Arfarniad gydymffurfio â Chanllawiau CIEEM ar gyfer Arfarniad Ecolegol Cychwynnol a rhaid i aelodau CIEEM yn unig eu gwneud a'u hadolygu. Rhaid i bob arfarniad gynnwys taflen o grynodeb i'w defnyddio gan y Cyngor (darperir fel Atodiad i'r Nodyn Canllaw Arolwg Ecolegol (Mai 2023)).


3.3 Rhaid gwerthuso statws bioamrywiaeth ar y safle neu'r effaith bosibl ar y fioamrywiaeth ar y safle, a rhaid nodi a ydyw'n: werth Uchel, Canolig neu Isel. Bydd y Cyngor yn sicrhau ansawdd y statws hwn ac yn ei wirio trwy'r broses Asesu Safleoedd Ymgeisiol.

3.4 Yn ogystal, dylid darparu data system wybodaeth ddaearyddol (GIS) ar ffurf ffeiliau siâp, er mwyn rhoi cynrychiolaeth weledol o statws ecolegol pob safle.

3.5 Dyma ddogfennau defnyddiol ychwanegol sydd gan y Cyngor:

- Methodoleg Asesu Safleoedd Ymgeisiol (Mai 2023)
- Galwad am Safleoedd Ymgeisiol: Nodiadau Canllaw ar gyfer Cyflwyno Safle
- (Mai 2023)
- Canllawiau Cynllunio Atodol Rhwymedigaethau Cynllunio Diwygiedig (mabwysiadwyd Chwefror 2023)
- Canllawiau Cynllunio Atodol Dylunio Safle, Uwchgynllunio a Briff Datblygu (mabwysiadwyd ym mis Chwefror 2023)

## Atodiad 1: Trosolwg o’r Broses ar gyfer Safleoedd Ymgeisiol



**Cael ymatebion i’r ymgynghoriad, rhoi sylw iddynt a’u cynnwys yn yr Asesiad Safleoedd Ymgeisiol Terfynol a’r Gofrestr, i’w cyflwyno er mwyn i’r Cyhoedd eu Harchwilio**